

Geiriau Tebyg 2

1. Byddai hi wedi ennill y wobr **pe** byddai wedi dysgu'r geiriau'n iawn.
2. Gallen nhw gyrraedd mewn pryd **pe** bydden nhw'n gadael nawr.
3. Cei di fynd adre'n gynnar **os** byddi di'n dda.
4. **Os** bydd hi'n bwrw glaw yfory byddaf yn mynd i'r pwll nofio.
5. Byddwn i'n mynd i'r sinema heno **pe** byddai fy mam yn talu.
6. Fyddet ti'n prynu gêm newydd **pe** byddai digon o arian gyda ti?
7. Hoffen nhw fynd ar wyliau dramor **pe** byddai digon o arian ganddynt.
8. Baswn i wedi paratoi'n well **pe** baswn i'n gwybod eich bod chi'n dod.
9. Cofia ddweud wrthyf i **os** cei di neges destun ganddo.
10. Fydd hi'n flin **os** byddi di'n hwyr?